



Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 55/2018

Dyddiad cyhoeddi: 02/10/2018

Gwerthusiad Proses o'r rhaglen Cymraeg i Blant: Canfyddiadau Cychwynnol

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Cwmni Ymchwil Arad a Phrifysgol Bangor wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad proses o'r rhaglen Cymraeg i Blant (y rhaglen). Nod y gwerthusiad yw archwilio a yw'r rhaglen wedi'i dylunio mewn ffordd sy'n galluogi ei hamcanion i gael eu cyflawni, ac asesu sut y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu ar ei ffurf bresennol.
- 1.2 Amcanion y gwerthusiad yw datblygu a phrofi theori newid y rhaglen, nodi pa agweddau o'r rhaglen sy'n gweithio'n dda, yn ogystal â pha agweddau y mae angen eu gwella, a sut y gellid gwneud hyn. Mae'r gwerthusiad hefyd yn ceisio datblygu cynigion posibl ynghylch dylunio ymchwil ar gyfer gwerthusiad o ddeilliannau'r rhaglen yn y dyfodol.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o'r canfyddiadau cychwynnol o ran gweithredu'r rhaglen. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei lunio ym mis Hydref 2018 a bydd yn manylu ar bob cam o'r ymchwil a'r canfyddiadau sy'n cyd-fynd â'r camau hynny.

Ynghylch Cymraeg i Blant

- 1.4 Dechreuodd y rhaglen Cymraeg i Blant ym mis Ebrill 2016, yng nghyd-destun strategaeth y Gymraeg (ar y pryd) Llywodraeth Cymru, [iaith fyw: iaith byw](#) (Llywodraeth Cymru, 2012). Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ac mae ei rhaglen waith ar gyfer 2017-21 wedi ymrwymo i adolygu a mireinio'r rhaglen Cymraeg i Blant.¹ Nod y rhaglen yw cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg. Ei hamcanion yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau teulu eraill wrth gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant, mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

¹ Llywodraeth Cymru, 2017a. [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) [Cyrchwyd 5 Gorffennaf 2018]
Llywodraeth Cymru, 2017b. [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Rhaglen waith 2017–21](#). [Cyrchwyd 23 Gorffennaf 2018]

- 1.5 Mae'r rhaglen yn cael ei darparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a darparwr allanol. Ym mis Ionawr 2016, dyfarnwyd contract i Mudiad Meithrin ddarparu'r rhaglen ar y cyd am hyd at dair blynedd. Gwerth y contract yn 2016-2017 oedd £500,000 i ddarparu gwasanaethau mewn 14 awdurdod lleol. Ym mis Ebrill 2017, cynyddodd Llywodraeth Cymru werth y contract i £725,000 y flwyddyn er mwyn i'r gwasanaethau hyn gael eu cynnig ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- 1.6 Er mwyn darparu'r gwasanaethau, mae Mudiad Meithrin yn cyflogi 26 o swyddogion (mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio ran amser) ledled Cymru, ac mae pob un ohonynt yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn eu hardal.² Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cyflogi rheolwr cenedlaethol Cymraeg i Blant a thri uwch-swyddog i reoli'r rhaglen.
- 1.7 Mae'r holl weithgareddau Cymraeg i Blant yn rhad ac am ddim ac maent yn cael eu cynnal mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol. Ar hyn o bryd, mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys grwpiau stori a chân, ioga babi a thylino babi. Un o amcanion penodol y rhaglen yw sefydlu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau perthnasol eraill, megis gweithwyr iechyd proffesiynol, Dechrau'n Deg a'r Mentrau Iaith, er mwyn cynnig gweithgareddau ar y cyd a chyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.³ Mae Llywodraeth Cymru a Mudiad Meithrin yn rhannu'r cyfrifoldeb am gydweithredu â rhanddeiliaid ac asiantaethau eraill. Erbyn diwedd mis Chwefror 2018, roedd 2,947 o grwpiau gweithgareddau Cymraeg i Blant wedi cael eu cynnal, ac roedd 20,933 o bresenoldebau gan rieni a 21,960 o bresenoldebau gan blant (gan gynnwys amcangyfrif o 3,488 o rieni unigryw a oedd wedi'u mynychu).⁴

Methodoleg y Gwerthusiad

- 1.8 Mae'r adroddiad hwn ar y canfyddiadau cychwynnol yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod Ebrill-Mehefin 2018, drwy'r dulliau canlynol:
- adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen, gan gynnwys adroddiadau monitro a gyflwynwyd gan Mudiad Meithrin;
 - cyfweiliadau â dau o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru;
 - cyfweiliadau â'r rheolwr Cymraeg i Blant a thri uwch-swyddog y rhaglen ym Mudiad Meithrin;
 - cyfweiliadau â 24 o swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant;
 - gwaith maes gyda 109 o rieni a gwarcheidwaid, mewn 26 o sesiynau gweithgareddau mewn 21 rhanbarth.

² Mae cwmpas daearyddol rhanbarth pob swyddog rhanbarthol yn amrywio. Mae rhai swyddogion yn gweithredu ar draws un awdurdod lleol (neu ran o awdurdod lleol) tra bod eraill yn gweithio ar draws mwy nag un awdurdod lleol. Bydd rhestr lawn o'r rhanbarthau yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

³ Mae Dechrau'n Deg yn rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau yn y gymuned sy'n gweithio gydag unigolion, mudiadau a busnesau i godi proffil y Gymraeg mewn ardal benodol. Mae 22 o Fentrau Iaith yng Nghymru. Gweler [Mentrau Iaith](#) [Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2018]

⁴ Mae'r ffigurau ynghylch 'presenoldebau' plant a rhieni yn cyfeirio at gyfanswm nifer y sesiynau a fynychwyd gan rieni (ac felly maent yn cyfrif rhieni a phlant unigol fwy nag unwaith os ydynt wedi mynychu sawl sesiwn). Mae'r ffigurau ynghylch 'rhieni unigryw' yn cyfrif pob rhiant unwaith yn unig, ni waeth faint o sesiynau roeddent wedi'u mynychu.

- 1.9 Mae tasgau gwerthuso eraill wedi eu cyflawni hyd yma. Y dasg gyntaf oedd nifer bychan o gyfweiliadau â rhanddeiliaid (cyfanswm o 12) nad ydynt wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, gan fod y broses o gyfweld â'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn mynd rhagddi. Yr ail dasg yw gwaith parhaus i ddatblygu theori newid y rhaglen, sydd wedi cyfrannu at ddatblygu offerynnau ymchwil ac sy'n sail i'r gwerthusiad. Bydd y theori newid yn cael ei datblygu ymhellach ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol.
- 1.10 Felly, bydd rhagor o dystiolaeth yn cael ei chasglu ym mis Gorffennaf, Awst a Medi 2018. Gwneir hyn drwy: gyfweiliadau ag asiantaethau partner, gan gynnwys y rheiny sydd wedi cydweithredu â Llywodraeth Cymru neu Mudiad Meithrin fel contractwr allanol ar lefel genedlaethol. Mae rhai ohonynt wedi cydweithredu â swyddogion rhanbarthol y rhaglen ac mae rhai ohonynt nad ydynt wedi cydweithredu â'r rhaglen. Yn ogystal, cynhelir adolygiad o'r data a'r ddogfennaeth ddiweddaraf ar gyfer monitro'r rhaglen.

2. Canfyddiadau Cychwynnol

- 2.1 Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn seiliedig ar y gwaith maes a wnaed hyd yma (hyd at ddiwedd mis Mehefin 2018) wedi'u cyflwyno isod dan y themâu canlynol: nodau ac amcanion y rhaglen; y gynulleidfa darged; gweithgareddau'r rhaglen; ardaloedd daearyddol; strwythurau a phrosesau; a chynllunio strategol.

Nodau ac amcanion y rhaglen

- 2.2 Mae [Strategaeth Cymraeg 2050](#) yn amlinellu dull gweithredu hirdymor Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae rhaglen waith y Strategaeth yn esbonio sut y mae Cymraeg i Blant 'nid yn unig yn rhoi gwybodaeth i rieni newydd a darpar rieni am drosglwyddo'r iaith, mae ganddi hefyd y nod o gefnogi plant wrth drosglwyddo i ddarpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar a thu hwnt'.
- 2.3 Cafodd nodau ac amcanion y rhaglen (gweler 1.4) eu mireinio a'u dehongli ymhellach gan [Fudiad Meithrin](#) yn ei gais llwyddiannus ac yna yn ei gynllun busnes. Disgrifiad Mudiad Meithrin o'r prosiect yw '[cynllun] i annog darpar rieni a rhieni newydd i ddilyn llwybr dwyieithog i'w plant trwy ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg'.
- 2.4 Mae'r cyfweiliadau â staff Mudiad Meithrin hyd yma wedi dangos mai eu dehongliad o'r nodau a'r amcanion cenedlaethol yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, trosglwyddo'r Gymraeg a symud ymlaen i ofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Disgrifiodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw y nodau a'r amcanion hyn drwy'r cysyniad o daith iaith, gan ddechrau gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant a symud ymlaen i ddarpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar (megis grwpiau Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin Mudiad Meithrin) ac yna ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg.⁵ Dywedodd y swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn deall y nodau a'r amcanion cenedlaethol a'u bod yn credu eu bod yn briodol. Hefyd, dywedodd y swyddogion fod y nodau a'r amcanion hyn yn cael eu hadlewyrchu ar lefel ranbarthol. Fodd bynnag, roedd y swyddogion hefyd yn teimlo bod ganddynt ddigon o hyblygrwydd i roi mwy o bwyslais ar amcanion penodol (e.e. trosglwyddo, caffael a defnyddio'r iaith ac addysg Gymraeg) yn unol â'r ardal neu gefndir ieithyddol y rhieni. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi mabwysiadu'r cysyniad o daith iaith a'u bod yn ei gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r teulu a'i brofiad o'r Gymraeg.

⁵ Ni chrybwyllwyd y cysyniad o daith iaith ym manyleb y rhaglen, er bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r ymadrodd yn ddiweddarach yng nghyd-destun Cymraeg i Blant ar ei gwefan. Gweler [Cymraeg i Blant](#) [Cyrchwyd 23 Gorffennaf 2018]

Y gynulleidfa darged

- 2.5 Cynulleidfaoedd targed y rhaglen yw rhieni a darpar rieni. Mae'r grwpiau Cymraeg i Blant yn agored i holl rieni plant ifanc o unrhyw gefndir ieithyddol.
- 2.6 Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a chymryd y cam cyntaf tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gynulleidfa a dargedir i gymryd rhan yn y grwpiau felly yn cynnwys y teuluoedd hynny sydd â'r potensial i drosglwyddo'r Gymraeg a'r teuluoedd hynny nad oes ganddynt brofiad blaenorol o ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd drwy waith maes ac adolygu data monitro hyd yma, mae'r gynulleidfa wirioneddol a gyrhaeddwyd – o ran niferoedd a chefnidir ieithyddol – yn amrywio o ardal i ardal, o fewn ardaloedd, a gall amrywio o wythnos i wythnos wrth i deuluoedd newydd ymuno a gadael.
- 2.7 Dywedodd staff Cymraeg i Blant fod y broses o dargedu rhieni a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y rhaglen yn dechrau yn y cyfnod cynnedigol. Dywedodd staff y rhaglen eu bod wedi cysylltu â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i godi ymwybyddiaeth ynghylch y rhaglen a gofyn iddynt roi gwybodaeth i rieni a darpar rieni ynghylch gweithgareddau'r rhaglen. Fodd bynnag, roedd bron y cyfan o'r rhieni yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad hwn wedi clywed am y rhaglen ar dafod leferydd neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a nododd rhai eu bod wedi clywed amdani drwy ffynonellau eraill.
- 2.8 O ran marchnata sesiynau'r rhaglen, mae'r holl swyddogion Cymraeg i Blant yn defnyddio Facebook yn ddull o hysbysebu a chyfathrebu â rhieni. Mae negeseuon ar Facebook a hysbysebion print ynghylch gweithgareddau'r rhaglen yn pwysleisio bod croeso i'r holl rieni yn y sesiynau. Dywedodd bron y cyfan o'r rhieni y cyfwelwyd â nhw, ni waeth sut roeddent wedi dod i wybod am y rhaglen i ddechrau, eu bod wedi ymweld â thudalen leol Cymraeg i Blant ar Facebook.

Gweithgareddau'r rhaglen

- 2.9 Mae'r gweithgareddau Cymraeg i Blant yn cael eu darparu i grwpiau o rieni a phlant ifanc. Mae tri phrif fath o weithgareddau i grwpiau: grwpiau tylino babi a gynigir o 8 wythnos oed, ioga babi i fabanod 10 wythnos a hŷn, a sesiynau stori a chŷn i blant 0 – 3 oed, ac maent i gyd yn rhad ac am ddim. Mae arwyddo i fabanod wedi'i gyflwyno mewn nifer o'r sesiynau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gweithgareddau untro yn ychwanegu at y rhain, fel arfer gweithgaredd mewn ardal newydd neu gyda chynulleidfa darged newydd, neu ddigwyddiadau mewn cysylltiad â phartneriaid lleol. Roedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd gan y swyddogion yn cynnwys teithiau cerdded â bygis gyda theuluoedd neu sesiynau stori a chŷn untro a ddarperir yn ystod gwyliau lleol.
- 2.10 Nododd staff Cymraeg i Blant fod y gweithgareddau a gynigir drwy'r rhaglen (tylino babi, ioga babi a sesiynau stori a chŷn) wedi'u dewis gan Fudiad Meithrin i'w galluogi i dargedu rhieni â sesiynau sy'n briodol i blant ifanc iawn ac i gynnig cyfres o weithgareddau a llwybr dilyniant yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd plentyn. Mae'r rhieni y cyfwelwyd â nhw hyd yma wedi dweud bod y gweithgareddau yn apelio atynt a'u bod wedi'u targedu'n briodol atynt.
- 2.11 Mae'r tri math o grŵp ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd, er bod y swyddogion lleol yn teilwra'r dewis o weithgareddau i osgoi dyblygu darpariaeth a gynigir eisoes gan eraill yn lleol. Darperir bron y cyfan o'r gweithgareddau yn ystod yr wythnos, ganol y bore neu ganol y prynhawn. Yn aml, mae'r gweithgareddau yn cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd, er bod caffis, neuaddau ac adeiladau ysgolion yn cael eu defnyddio hefyd, a dewisir y lleoliadau oherwydd eu bod yn gyfleus i rieni a'u bod ar gael am ychydig o gost neu'n rhad ac am

ddim. Mae'r adborth a gafwyd gan y rhieni y cyfwelwyd â nhw hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran lleoliadau, amserau a natur y gweithgareddau.

- 2.12 Y grwpiau hyn yw'r brif ffordd o greu a chynnal cyswllt â rhieni, ac mae'r grwpiau yn cael eu defnyddio gan y swyddogion Cymraeg i Blant i rannu gwybodaeth ynghylch trosglwyddo, caffael a defnyddio'r iaith a symud ymlaen i addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â chyswllt drwy'r grwpiau, mae'r swyddogion yn rhannu negeseuon allweddol a gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, taflenni print a chydweithredu â phartneriaid.
- 2.13 Esboniodd y swyddogion sut y maent yn defnyddio'r ychydig sesiynau cyntaf i ddatblygu perthynas â'r rhieni a chreu grŵp cyfeillgar, a'u bod wedyn yn defnyddio eu doethineb wrth benderfynu pryd a sut y byddant yn cyflwyno negeseuon ynghylch trosglwyddo, caffael a defnyddio'r iaith a symud ymlaen i addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg. Disgrifiodd y swyddogion eu dull gweithredu fel un graddol, lle maent yn cyflwyno ychydig o wybodaeth ar y tro ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.

Ardaloedd daearyddol

- 2.14 Pan sefydlwyd y rhaglen am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2016, roedd yn cael ei darparu mewn 14 awdurdod lleol. Derbyniodd gyllid ychwanegol ddechrau 2017 er mwyn iddi fod ar gael ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Bellach, mae rhwydwaith o swyddogion yn gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol, ond oherwydd capasiti ac amser staff gallant ddarparu grwpiau mewn rhai lleoliadau yn unig.
- 2.15 Mae'r lleoliadau ar gyfer darparu gweithgareddau yn cael eu dewis ar y cyd â swyddogion rhanbarthol Mudiad Meithrin. Gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol, mae'r swyddogion rhanbarthol yn dewis, yn fras, ddau fath o leoliad i ddarparu'r gweithgareddau ynddynt – ardaloedd lle mae bwlch o ran y ddarpariaeth Ti a Fi (grwpiau i rieni a phlant bach sy'n cael eu hwyluso gan Fudiad Meithrin) ac felly lle nad oes gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, neu leoliadau lle mae cynlluniau ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg newydd neu i ehangu ysgol o'r fath, a chyfle i ddechrau gweithgareddau Cymraeg i Blant yn gam cyntaf ar y daith tuag at y ddarpariaeth addysg newydd honno.

Strwythurau a phrosesau

- 2.16 Mae Mudiad Meithrin a Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd adolygu strategol bob tymor i drafod y cynnydd o ran cyflawni'r contract Cymraeg i Blant, yn ogystal â gweithgarwch arall a gyllidir gan grant ac a ddarperir gan Fudiad Meithrin ar ran Llywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd amlach o'r is-grŵp rheoli Cymraeg i Blant (a gynhelir bob 6-8 wythnos ac sy'n canolbwyntio ar faterion mwy gweithredol) rhwng Llywodraeth Cymru a rheolwyr y rhaglen Cymraeg i Blant. Nododd Llywodraeth Cymru a'r rheolwyr Cymraeg i Blant fod trafodaethau anffurfiol amlach yn digwydd rhwng y cyfarfodydd hyn. Dywedodd staff Llywodraeth Cymru a staff Cymraeg i Blant y cyfwelwyd â nhw hyd yma fod perthynas waith dda rhyngddynt.
- 2.17 Mae'r swyddogion rhanbarthol yn cael eu rheoli gan dri uwch-swyddog Cymraeg i Blant. Nododd y swyddogion rhanbarthol amrywiadau o ran pa mor aml y maent yn cwrdd â'u huwch-swyddog. Dywedodd rhai swyddogion rhanbarthol eu bod yn cwrdd â'u rheolwr llinell bob pythefnos, yn fras, i gynllunio'r ddarpariaeth a thrafod unrhyw faterion (a bod trafodaethau dros y ffôn yn digwydd o leiaf bob wythnos), tra bod eraill wedi dweud eu bod yn cwrdd yn llai aml (roedd yn ymddangos mai'r prif ddylanwad ar hyn oedd pa mor agos oeddent yn ddaearyddol). Dywedodd y staff Cymraeg i Blant fod pob uwch-swyddog yn cynnull cyfarfod o'r holl swyddogion rhanbarthol yn eu hardal bob tymor a bod cyfarfodydd cenedlaethol o holl staff y rhaglen yn cael eu cynnal bob tymor i ganolbwyntio ar rannu

arferion da a datblygiad proffesiynol parhaus. Yn gyffredinol, dywedodd rheolwyr y rhaglen a'r staff rhanbarthol fod y trefniadau o ran rheolwyr llinell yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, dywedodd rhai swyddogion rhanbarthol y byddent yn gwerthfawrogi cyswllt mwy rheolaidd â'u huwch-swyddog, ond dywedasant nad oedd hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd y pellter daearyddol rhynddynt.

- 2.18 Mae Mudiad Meithrin yn cyflwyno adroddiadau chwarterol ar ddata monitro i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys data ynghylch nifer y canlynol: sesiynau a ddarparwyd; rhieni a phlant sydd wedi mynychu sesiynau; teuluoedd unigryw sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen (data amcangyfrifedig); ymweliadau gan staff y rhaglen â Chylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi a meithrinfeydd preifat; cyflwyniadau i rieni mewn sesiynau Rhianta; gweithgareddau ymgysylltu â phartneriaid; a gweithgareddau marchnata a chyfathrebu. Bydd y data monitro a gasglwyd, a'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data, yn cael eu hadolygu'n fanylach yn rhan o'r dadansoddiad ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Cynllunio strategol

- 2.19 Mae Mudiad Meithrin yn cyflawni dwy swyddogaeth allweddol yng nghyd-destun Cymraeg i Blant; mae Mudiad Meithrin yn gcontractwr sy'n gyfrifol am weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu Cymraeg i Blant, ac mae'n fudiad gwirfoddol sy'n cynrychioli mwyafrif helaeth y ddarpariaeth gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Dywedodd rheolwr cenedlaethol ac uwch-swyddogion Cymraeg i Blant eu bod wedi cyfrannu at broses cynllunio strategol Mudiad Meithrin ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar ar lefel genedlaethol. Mae rheolwr cenedlaethol y rhaglen yn aelod o fwrdd cenedlaethol Mudiad Meithrin ac mae'r uwch-swyddogion yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio chwarterol gyda rheolwyr rhanbarthol Mudiad Meithrin. Dywedodd Mudiad Meithrin fod y prosesau cynllunio strategol hyn wedi arwain at sefydlu a chyd-leoli grwpiau Cymraeg i Blant mewn chwe lleoliad sy'n cyd-fynd â darpariaeth newydd o ran Cylchoedd Meithrin.
- 2.20 Dywedodd yr holl staff Cymraeg i Blant eu bod wedi ceisio datblygu partneriaethau â sefydliadau allanol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Er mwyn hwyluso hyn, mae un o uwch-swyddogion y rhaglen wedi'i benodi'n rheolwr partneriaethau. Dywedodd rheolwr cenedlaethol ac uwch-swyddogion Cymraeg i Blant eu bod wedi gweithio mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dechrau Da, S4C a Chyngor Llyfrau Cymru ar rai mentrau cenedlaethol. Mae'r rheolwr cenedlaethol a'r uwch-swyddogion wedi gweithio mewn partneriaeth â rhai byrddau iechyd lleol ac maent wedi rhoi cyflwyniadau ynghylch Cymraeg i Blant i adrannau bydwreigiaeth mewn prifysgolion. Dywedodd rheolwr cenedlaethol ac uwch-swyddogion Mudiad Meithrin eu bod wedi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, ac yn sgil hynny cyfeiriwyd at y rhaglen yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr holl awdurdodau lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae swyddogion y rhaglen yn mynychu fforymau CSGA neu fforymau'r Gymraeg.

- 2.21 Dywedodd swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant eu bod wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol, ymwelwyr iechyd (fel arfer drwy glinigau neu bractisau meddygon teulu), cyrsiau Rhianta, staff Dechrau'n Deg, Mentrau Iaith, staff Cymraeg i Oedolion, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, llyfrgelloedd a'r trydydd sector (megis elusennau plant).⁶ Nodwyd mai diben gweithio mewn partneriaeth oedd: cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y rhaglen (ymhlith partneriaid a rhieni, yn enwedig y rheiny mewn grwpiau mwy anodd eu cyrraedd); cynyddu nifer yr atgyfeiriadau rhwng Cymraeg i Blant a sefydliadau partner (ac fel arall); a gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gweithgareddau (e.e. rhannu lleoliadau, darparu sesiynau ar y cyd).
- 2.22 Dywedodd staff y rhaglen fod amrywiaeth o ran cryfder gwaith partneriaeth rhwng Cymraeg i Blant a sefydliadau allanol, yn ôl sector ac ardal. Nodasant y gallai sawl ffactor ddylanwadu ar ddatblygu partneriaethau, megis:
- Pa un a oedd y swyddogion wedi'u cyflogi gan Twf yn yr ardal yn flaenorol.⁷
 - Nodwyd bod y partneriaethau yn tueddu i fod yn gryfach yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd y swyddogion wedi bod yn gweithio fel swyddogion Twf yn flaenorol. Roedd rheolwyr y rhaglen yn credu bod angen i swyddogion rhanbarthol nad oeddent wedi gweithio ar raglen Twf yn flaenorol ganolbwyntio ar sefydlu a datblygu'r ddarpariaeth leol cyn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth.
 - Y capasiti i gwrdd â sefydliadau partner.
 - Dywedodd nifer o staff (yn enwedig y rheiny sy'n gweithio ran amser) ei bod yn heriol cael hyd i amser i gynllunio a darparu sesiynau, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth. Nodwyd bod hyn yn arbennig o heriol lle'r oedd angen creu cysylltiadau newydd;
 - Gallu a chapasiti sefydliadau partner i weithio mewn partneriaeth.
 - Dywedodd staff y rhaglen fod amrywiadau o ran gallu a chapasiti partneriaid i weithio mewn partneriaeth, a nodasant fod amrywiaeth o ffactorau yn gyfrifol am hyn, megis: diffyg amser ymhlith rhanddeiliaid i gynllunio a gweithio mewn partneriaeth; trosiant staff mewn sefydliadau partner; ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig ynghylch y rhaglen ymhlith rhanddeiliaid;
 - Parodrwydd sefydliadau partner i weithio mewn partneriaeth.
 - Dywedodd staff y rhaglen fod amrywiadau o ran parodrwydd partneriaid i gymryd rhan. Roedd rhai o staff y rhaglen yn credu bod hyn o ganlyniad i ganfyddiad ymhlith rhai sefydliadau partner fod Cymraeg i Blant yn cystadlu â'u gwasanaethau i gynnwys rhieni. Roeddent hefyd yn credu bod pa mor gadarn oedd y cysylltiadau rhwng y rhaglen a staff rhanddeiliaid yn dylanwadu ar hyn.

⁶ Mae sesiynau Rhianta yn ddsbarthiadau cynenedigol sy'n cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac sy'n ceisio paratoi rhieni ar gyfer genedigaeth a gofal eu baban. Mae Dechrau'n Deg yn rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd yn wasanaethau'r awdurdodau lleol sy'n darparu cyngor a gwybodaeth am ddim ynghylch ystod eang o ddewisiadau o ran gofal plant a gweithgareddau i blant a'u teuluoedd a'u gofawyr. Gweler hefyd droednodyn 3.

⁷ Roedd Twf yn brosiect a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn annog trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd, a oedd yn weithredol rhwng 2002 a 2017.

- Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn cynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol i gasglu rhagor o dystiolaeth ynghylch eu cysylltiad â'r rhaglen, er mwyn profi'r canfyddiadau cychwynol (gweler 1.10).

3. Sylwadau i gloi a'r camau nesaf

- 3.1 Dywedodd staff Llywodraeth Cymru a staff Cymraeg i Blant eu bod yn credu bod nodau ac amcanion y rhaglen yn eglur. Dywedodd staff y rhaglen eu bod yn deall bod Cymraeg i Blant yn ceisio cyfrannu at nodau strategol *Strategaeth Cymraeg 2050*.
- 3.2 Mae cynulleidfa darged y rhaglen yn eang ac mae'n cynnwys yr holl deuluoedd, ni waeth beth yw eu cefndir ieithyddol, eu defnydd, eu gallu a'u bwriadau mewn perthynas â throsglwyddo'r iaith neu gefnogi eu plentyn i ddysgu'r Gymraeg. Nododd staff Cymraeg i Blant fod negeseuon y rhaglen yn cael eu teilwra fel eu bod yn addas i gefndir ac amgylchiadau'r rhieni. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn archwilio goblygiadau cwmipas ac ehangder nodau ac amcanion y rhaglen, a hefyd sut y deallir y rhain gan rieni.
- 3.3 Dywedodd staff y rhaglen eu bod wedi targedu lleoliadau penodol a cheisio sicrhau bod sefydlu grwpiau Cymraeg i Blant yn cyd-fynd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd arall ar gyfer y blynyddoedd cynnar (e.e. Cylchoedd Meithrin newydd), er mwyn creu llwybrau dilyniant newydd i addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, dywedodd y swyddogion rhanbarthol fod ganddynt dipyn o hyblygrwydd hefyd o ran dewis lleoliadau ar gyfer darparu gweithgareddau, gan roi ystyriaeth i amryw o ffactorau lleol, megis darpariaeth debyg arall (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg), addasrwydd y lleoliadau a'r galw tebygol gan rieni am y mathau o weithgareddau a ddarperir gan Gymraeg i Blant.
- 3.4 Mae'r mathau o weithgareddau a ddarperir yn y sesiynau (tylino babi, ioga babi, amser stori/rhigymau ac arwyddo) wedi'u dewis gan Fudiad Meithrin gyda'r bwriad o gynnig llwybr dilyniant i deuluoedd â phlant ifanc iawn. Dywedodd yr holl rieni fod y gweithgareddau a gynigir drwy'r rhaglen yn apelio atynt, a dywedodd nifer ohonynt eu bod wedi symud ymlaen o un gyfres o sesiynau i'r nesaf. Bydd barn y rhieni ynghylch y gweithgareddau yn cael ei harchwilio ymhellach yn yr adroddiad gwerthuso terfynol, ochr yn ochr â data monitro'r rhaglen.
- 3.5 Dywedodd staff Llywodraeth Cymru a staff Mudiad Meithrin fod y strwythurau rheoli sydd wedi'u sefydlu (cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd a chyfathrebu mwy anffurfiol o ddydd i ddydd) yn gweithio'n effeithiol. Hefyd, dywedodd staff y rhaglen fod y trefniadau rheoli o fewn Mudiad Meithrin yn gweithio'n dda yn gyffredinol.
- 3.6 Dywedodd staff y rhaglen fod partneriaethau â sefydliadau eraill mewn gwahanol sectorau wedi'u datblygu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn awgrymu bod amrywiadau o ran cryfder y cydweithredu, yn ôl ardal a sector. Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y rheiny lle nad oedd rhaglen Twf yn gweithredu'n flaenorol, dywedwyd bod partneriaethau â nifer o sefydliadau yn y cyfnod cychwynol. Roedd canfyddiad ymhlith staff y rhaglen fod rhai heriau a rhwystrau sy'n cyfyngu ar faint y gellir gweithio mewn partneriaeth.
- 3.7 Bydd adroddiad terfynol y gwerthusiad hwn yn archwilio ymhellach farn rhieni/gofalwyr, staff y rhaglen a rhanddeiliaid ynghylch Cymraeg i Blant. Bydd yr adroddiad terfynol hefyd yn cyflwyno theori newid ddrafft ac yn archwilio ymhellach drefniadau monitro'r rhaglen a'u haddasrwydd o ran darparu data y gellir ei ddefnyddio'n rhan o werthusiad o draweffaith yn y dyfodol.

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Catrin Redknap

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: catrin.redknap@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-188-2